Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Polisi Diogelwch TG

Cwmpas a Diben y Polisi

Pwrpas y polisi hwn yw diffinio fframwaith ar sail y ffyrdd gorau o ddiogelu systemau cyfrifiadurol, rhwydwaith a holl ddata'r coleg sy'n hygyrch ar neu drwy gyfrwng y systemau cyfrifiadurol hyn rhag bygythiadau, boed yn fewnol, allanol, bwriadol neu ddamweiniol.

Mae systemau TG yn chwarae rhan sylweddol yng ngweithrediad y Coleg. Mae argaeledd, cyfrinachedd a chywirdeb data ar systemau TG y Coleg yn hanfodol i lwyddiant ein gweithgareddau academaidd a gweinyddol. Sicrheir diogelwch effeithiol gyda disgyblaeth, yn unol â deddfwriaeth a thrwy gadw at weithdrefnau'r Coleg.

Mae'n Bolisi'r Coleg i sicrhau:-

- Bydd pob system gyfrifiadurol ganolog, rhaglenni, data a rhwydwaith yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag colled, camdriniaeth neu fynediad anawdurdodedig.
- Bydd holl aelodau'r Coleg yn ymwybodol mai eu cyfrifoldeb nhw yw ufuddhau i'r polisi hwn.
- Bydd yr holl ofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol ynghylch diogelwch cyfrifiadurol a chyfrinachedd a chyfanrwydd gwybodaeth yn cael eu bodloni gan y Gwasanaethau TG a'r Coleg.
- Creu ymwybyddiaeth ar draws y coleg bod yn rhaid gweithredu mesurau priodol fel rhan o weithrediad effeithiol o Ddiogelwch TG.
- Sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn deall eu cyfrifoldebau personol o ran diogelu cyfrinachedd a chyfanrwydd y data y maent yn ymdrin ag ef.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w galluogi nhw i gyflawni hyd eithaf eu gallu tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Ymrwymiad i fodel cymdeithasol anabledd lle'r ydym yn edrych ar gael gwared ar y rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd ei anabledd neu anhawster dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl Staff a Myfyrwyr o fewn y Coleg.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mawrth 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mawrth 23

Cyfrifoldebau Cyffredinol

Mae'r Polisi Diogelwch TG yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau diogelwch systemau TG, y gweithdrefnau i'w dilyn a chyfrinachedd a chyfanrwydd y wybodaeth a gedwir.

- Mae cyfanrwydd yr holl systemau cyfrifiadurol canolog, cyfrinachedd unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddynt neu sy'n hygyrch ar neu drwy gyfrwng y systemau hyn yn gyfrifoldeb Gwasanaethau TG.
- Mae Tîm Rheoli Gweithredol y coleg yn gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi Diogelwch TG ac am sicrhau y caiff ei roi ar waith mewn adrannau academaidd ac adrannau cefnogaeth.
- Mae holl staff y coleg yn gyfrifol am roi gwybod yn syth am unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch i'w rheolwr llinell. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg yn gyfrifol am gydlynu ymchwiliadau i unrhyw ddigwyddiadau diogelwch TG sy'n cael eu hadrodd.
- Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg yn cymryd y camau priodol i hysbysu'r staff o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data, y Polisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron a'r Ddeddfwriaeth ar Hawlfraint Meddalwedd.
- Bydd archwilwyr y Coleg yn adolygu digonolrwydd rheolaethau systemau TG yn rheolaidd, yn ogystal â chydymffurfiaeth â rheolaethau o'r fath.

Yr Amgylchedd TGCh

Mae Gwasanaethau TG yn cynllunio, cynnal a gweithredu ystod eang o weinyddion, dyfeisiau rhwydwaith (craidd, ymylol a diwifr), systemau storio, copïau wrth gefn a chyswllt mewnol yr holl systemau hyn a Champysau'r coleg.

Diffinnir yr amgylchedd cyfrifiadurol fel yr holl adnoddau cyfrifiadurol a seilwaith rhwydwaith a reolir ac a oruchwylir gan wasanaethau TG, a'r holl ddyfeisiau cyfrifiadurol sy'n cysylltu'n gorfforol, ac sydd wedi derbyn awdurdod i gysylltu â'r amgylchedd hwn. Mae'r cyfan yn dod o dan y polisi hwn, gan gynnwys caledwedd a meddalwedd, a data cysylltiedig â'r Coleg sy'n bodoli ar y peiriannau hyn neu'n hygyrch o'r peiriannau hyn, o fewn amgylchedd rhwydwaith y campysau ac unrhyw gyfryngau cludadwy a allai fod yn hygyrch ar adegau.

Mae Gwasanaethau TG yn ystyried bod holl gysylltiadau dros dro a pharhaol rhwydwaith y Coleg (drwy unrhyw fath o ddyfais cleient, diwifr neu wifrog, neu drwy fynediad o bell) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r polisi hwn.

Caniateir i asedau cyfrifiadurol nad ydynt yn eiddo i'r Coleg gysylltu â rhwydwaith diwifr y coleg yn unig. Ni roddir caniatâd mewn UNRHYW amgylchiadau i asedau tu hwnt i'r colegau gysylltu â rhwydwaith y Coleg drwy gysylltiad gwifren.

Mae Gwasanaethau TG yn cadw'r hawl i fonitro, cofnodi, coladu a dadansoddi cynnwys yr holl drosglwyddiadau ar rwydweithiau a gynhelir gan y Coleg, os bernir ei fod yn angenrheidiol at ddibenion perfformiad, diagnosteg bai, amheuon o dorri rheolau diogelwch neu ddibenion ymchwil.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Diogelwch Corfforol

Mae gan Wasanaethau TG ystafell gyfathrebu ddiogel gyda'r meini prawf canlynol

- Drysau sy'n cloi'n ddiogel a chabinetau wedi'u cloi.
- Cyflenwad pŵer glân pwrpasol gyda bwrdd dosbarthu a rheolyddion ynysu ar wahân.
- Unedau rheoli aerdymheru ar ddyletswydd ac wrth gefn o fewn prif leoliadau'r gweinydd.
- Dosbarthiad pŵer.
- Rheolaeth gebl oddefol yn y mwyafrif o gabinetau.

Dylai unrhyw offer cyfrifiadurol mewn swyddfeydd neu ystafelloedd dosbarth fod mewn ystafell sydd â drysau dan glo ac wedi'i staffio bob amser pan fydd ar agor.

Mynediad at Systemau TG y Coleg

- Drwy gyfrifon defnyddwyr unigol yn unig y ceir mynediad at systemau cyfrifiadurol a rhwydwaith. Rhoddir caniatâd i ddefnyddio cyfrifon generig ar gyfer rhai gweithgareddau lle nad oes cyfrifon personol ar gael yn unig, e.e. profion asesu cychwynnol cyn i gyfrifon gael eu creu. Bydd gan bob aelod o staff gyfrifon wedi'u creu ar ddechrau cyflogaeth. Bydd yr holl fyfyrwyr wedi creu cyfrifon ar ôl iddynt gofrestru ar system MIS y Coleg. Bydd hyn yn sicrhau y gellir archwilio'r holl gyfrifon a bod defnyddwyr yn atebol.
- Bydd gan yr holl ddefnyddwyr fynediad at adnoddau ffeiliau a rennir. Mae'r defnydd o'r data hwn yn cael ei gynnwys yn y Polisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron.
- Bydd yr holl ddata'n cael ei reoli gan grwpiau Diogelwch. Rhaid gofyn am gael mynediad at wybodaeth drwy wasanaethau TG.
- Mae'r defnydd o e-bost yn cael ei reoli gan y Polisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron. Mae'r Coleg yn tanysgrifio i wasanaeth hidlo sbam a firysau allanol er mwyn sicrhau cywirdeb y post sy'n cael ei gyflwyno, cyn belled â phosib.
- Mae gan bob defnyddiwr fynediad i'r rhyngrwyd. Mae mesurau rheoli ar waith i fonitro ac adrodd ar lefelau defnydd.
- Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio gofod gwe personol na safleoedd rhwydweithio cymdeithasol mewn unrhyw ffordd i gyhoeddi deunydd sy'n fwriadol yn tanseilio diogelwch yn y Coleg neu'n difrodi enw'r Coleg neu unrhyw unigolion o fewn y Coleg.
- Rhaid i'r holl ddefnyddwyr gadw at bolisi cyfryngau cymdeithasol y Coleg.
- Mae rhwydwaith y Coleg wedi'i gysylltu â rhwydwaith Janet. Mae holl systemau'r Coleg yn sefyll y tu ôl i furiau cadarn. Rhaid i'r Coleg gydymffurfio â Rheoliadau Janet.
- Bydd gwasanaethau TG yn datgysylltu unrhyw beiriant oddi wrth rwydwaith y Coleg os na chafodd ei osod gan yr Adran Wasanaethau TG.
- Mae mynediad o bell ar gael i rai o wasanaethau'r coleg ar gyfer myfyrwyr a staff e.e. Moodle, mewnrwyd. Er mwyn sefydlu cysylltiad o bell, mae angen cyfrif parth dilys ar rwydwaith y coleg i gael mynediad at unrhyw rai o adnoddau TG y Coleg. Mae gan y coleg gyfleuster i staff gael mynediad at ragor o adnoddau rhwydwaith drwy VPN neu bwynt mynediad Wi-Fi o bell. Mae

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

hyn yn berthnasol i gyfarpar sy'n eiddo i'r coleg yn unig a dylid gofyn amdano drwy wasanaethau TG. Mae cyfyngiadau ar nifer y cysylltiadau a ganiateir yn eu lle.
- Nid yw'r Gwasanaethau Cymorth TG yn cefnogi peiriannau defnyddwyr cartref.
- Mae meddalwedd gwrth-firws yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl gwsmeriaid ac yn cael ei diweddaru'n gyson. Os yw defnyddiwr yn amau haint, dylid gwneud sgan cyflawn.

Adolygiad o Ddiogelwch

Cynhelir asesiadau risg cyfnodol er mwyn asesu'r rheolaethau diogelwch TG sydd ar waith, ystyried newidiadau mewn gofynion busnes ac unrhyw newid mewn deddfwriaeth.

Torri Rheoliadau Diogelwch

Bydd gwasanaethau TG yn monitro gweithgarwch rhwydwaith, adroddiadau gan gynghorwyr diogelwch eraill (h.y. Antivirus, Microsoft), ac yn gweithredu/gwneud argymhellion yn unol â chynnal diogelwch Systemau TG y Coleg.

Dylai unrhyw ddefnyddiwr sy'n amau bod achos o dorri Diogelwch TG wedi digwydd, neu'n debygol o fodoli, hysbysu ei reolwr llinell, a ddylai hysbysu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg er mwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Os bydd amheuaeth neu achos gwirioneddol o dorri rheoliadau diogelwch, gall y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg, ar ôl ymgynghori â'r Adran Adnoddau Dynol neu'r Tîm Rheoli Gweithredol, wneud y defnyddiwr, cyfrif, gwasanaeth neu gysylltiad ag adnoddau TG yn anhygyrch neu gael gwared arno er mwyn diogelu Systemau TG y Coleg.

Gallai unrhyw achos o dorri rheoliadau Diogelwch TG arwain at golli gwybodaeth bersonol. Byddai hyn yn torri Deddf Diogelu Data 1998 a gallai arwain at achosion sifil neu droseddol. Mae'n hanfodol felly bod defnyddwyr Systemau TG y Coleg nid yn unig yn cydymffurfio â'r polisi hwn, ond hefyd â Pholisi Diogelu Data'r Coleg.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg yr awdurdod i gymryd unrhyw gamau maen nhw'n ei weld yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn y coleg rhag achosion o dorri rheoliadau diogelwch.

Statws y Polisi Diogelwch TG

Nid yw'r polisi hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract cyflogaeth ffurfiol gyda'r coleg, ond mae'n amod cyflogaeth bod gweithwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r polisïau a wneir gan y Coleg o bryd i'w gilydd.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

• Polisi a gweithdrefnau Diogelwch TG y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n achos pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion coleg perthnasol e.e. derbyniadau, tiwtorial ac ati yn ymgorffori gweithdrefnau diogelwch TG.

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo er mwyn bodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Sicrhau darpariaeth o hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, er mwyn sicrhau na fydd eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu dramgwydd.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynd i ddigwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.
- Cyfrannu at arolygon dysgwyr a grwpiau ffocws i ddarparu adborth ar y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig, a sut mae'n effeithio arnynt.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Mae gan y Coleg rwymedigaeth i gadw at holl ddeddfwriaethau'r DU a deddfwriaethau perthnasol y Gymuned Ewropeaidd. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol:-

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
- Rheoliadau Telathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Ymyrryd â Chyfathrebu) 2000.
- Deddf Diogelu Data 2018.
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016.
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.
- Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Cyfeiriadau

Polisïau Cysylltiedig

- Rhyddid Gwybodaeth
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Datgelu
- Diogelu
- Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Adnoddau Dynol – Disgyblu
- Adnoddau Dynol - Cwyn Gyflogaeth

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cadw Data
- Rhyddid Gwybodaeth
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Datgelu
- Diogelu
- Cod Gwisg
- Hysbysiad Preifatrwydd CAVC
- Hysbysiad Preifatrwydd Staff
- Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mawrth 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mawrth 23

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 01/01/2017	**Rheolwr Atebol: Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth/Technoleg Gwybodaeth**
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Materion Cwricwlwm, Ansawdd a Dysgwyr	**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu**
Dyddiad adolygu: 28/03/2023	**Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy**

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mawrth 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mawrth 23